

LLOYD GEORGE (TEULU)

Sefydlwyd y teulu hwn trwy briodas **David Lloyd George** â Margaret Owen, 24 Ionawr 1888.

MARGARET OWEN (1864 - 1941)

Merch Richard a Mary Owen, Mynydd Ednyfed, Cricieth, Sir Gaernarfon, oedd MARGARET. Fe'i ganed hi 4 Tachwedd 1864; fe'i gwnaethpwyd hi'n Dame Grand Cross of the British Empire yn 1918. Bu farw 20 Ionawr 1941. Daeth o deulu a wreiddiwyd ym mywyd gwledig ac ymneilltuaeth Methodistiaid Calфинаidd Eifionydd. Yr oedd Richard Owen yn amaethwr cefnog, a weithredai o dro i dro fel prisiwr. Yr oedd hefyd yn flaenor yn y Capel Mawr (MC), Cricieth; pan gododd anghydfod ymhlith yr aelodau fe'i setlwyd trwy i'r gweinidog, John Owen, gyda rhai o'r blaenoriaid, gan gynnwys Richard Owen, a thua hanner aelodau'r eglwys, adael Capel Mawr a sefydlu eglwys Seion (MC) yng Nghricieth. Addysgwyd Margaret yn Ysgol Dr. Williams, Dolgellau; bu'n aelod ffyddlon o Seion, Cricieth, ar hyd ei hoes. Bu'n ffyddlon hefyd i'r gwerthoedd hynny y dysgwyd iddi eu parchu gan ei magwraeth ymneilltuol. Cyn eu priodas cafodd **David Lloyd George** a Margaret garwriaeth a dorrodd ar draws ffiniau enwadol a chymdeithasol, ac mae'r hanes yn hysbys bellach mewn llyfrau ar yrfa'r gwleidydd.

Bu iddynt bump o blant: Richard (1889 - 1968); Mair Eluned (1890 - 1907); Olwen Elizabeth (1892 - 1990); Gwilym (1894 - 1967); Megan Arfon (1902 - 1966). Bryn Awelon, Cricieth, oedd cartref sefydlog y teulu rhwng 1908, pan adeiladwyd y ty, ac 1941, pan fu farw'r Dâm Margaret. Oherwydd gyrfa wleidyddol **D. Ll.G.** bu gan y teulu hefyd cyn 1908 ac ymlaen o 1908 hyd at farwolaeth **D. Ll.G.** yn 1945, amryw o gartrefi o bryd i'w gilydd yn Llundain a'r cyffiniau. Cyfraniad arbennig Dâm Margaret oedd cadw undod y teulu dan amgylchiadau anodd a sicrhau mai Cymraeg oedd mamiaith pob un o'r plant.

RICHARD LLOYD GEORGE (1889 - 1968), yr ail Iarll Lloyd-George o Ddwyfor

Crewyd yr iarllaeth yn 1945, ychydig wythnosau cyn marw yr iarll cyntaf, **David Lloyd George**, ar 26 Mawrth 1945. Addysgwyd Richard yn ysgol uwchradd Porthmadog ac ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yr oedd yn Associate Member Inst. Civil Engineers; bu'n uchgapten yn y Peirianwyr Brenhinol yn rhyfeloedd 1914-1918 ac 1939-1945. Priododd (1), 1917, Roberta Ida Freeman, merch Syr Robert McAlpine, barwnig 1af; bu iddynt un mab, Owen, y trydydd Iarll Lloyd-George o Ddwyfor (ganwyd 1925) ac un ferch, Valerie, y Fonesig Goronwy Daniel. Diddymwyd y briodas, 1933. Priododd (2), 1935, Winifred Calve. Bu farw 1 Mai 1968, wedi gwaelled hir.

Cyhoeddodd yn 1947 *Dame Margaret - The Life story of my mother* - teyrnged dwymgalon i goffadwriaeth ei fam, ac yn 1960, *Lloyd George*.

MAIR ELUNED LLOYD GEORGE (1890 - 1907)

Dywedir mai Mair Eluned oedd kannwyll llygad ei thad; bu bron iddo dorri ei galon adeg ei marwolaeth 29 Tachwedd 1907, wedi iddi dderbyn triniaeth lawfeddygol am lid y coluddyn (appendicitis). Yr oedd hi'n eneth hardd a thalentog, yn enwedig mewn cerddoriaeth; arferai ddiddanu ei rhieni wrth ganu'r piano ac ni allai ei thad ddygyddod â'r ffaith fod y 'llaw wen dan grawen gro'. Codwyd cerflun marmor hardd ohoni o waith **William Goscombe John** uwch ei bedd ym mynwent Cricieth.

GWILYM LLOYD GEORGE (1894 - 1967), yr Is-iarll Tenby 1af; crewyd 1957 aelod o'r Cyfrin Gyngor (1941) ac ynad heddwch

Ganwyd 4 Rhagfyr 1894; addysgwyd yn Eastbourne College a Choleg Iesu, Caergrawnt (cymrawd anrhydeddus, 1953); yn Rhyfel Byd I, uchgapten R.A.; aelod seneddol (Rh) (1) 1922-24, (2) 1929-1950, y ddwy waith dros sir Benfro, (3) 1951-57, dros Newcastle-upon-Tyne North (fel Rh. Cen. a Cheidwadwr). Daliodd y swyddi a ganlyn mewn llywodraeth: ysg. sen. Bwrdd Masnach 1931 ac 1939-41; Ysg. sen. Gweinidog Bwyd 1941; Gweinidog Tanwydd a Phwer, 1942-45; Gweinidog Bwyd 1951-54 (Hydref); Ysgrifennydd Gwladol dros faterion cartref a Gweinidog materion Cymreig 1954 (Hydref) - 1957 (Ionawr). Fe'i crewyd yn Is-iarll Tenby yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd, 1957. Fe'i penodwyd yn gadeirydd Cyngor y Tribiwlysoedd yn 1961. Priododd, 1921, Edna Gwenfron Jones, merch David Jones, Gwynfa, Dinbych. Bu iddynt ddau fab, a'r ail is-iarll Tenby yw David, ganwyd 4 Tachwedd 1922.

Yn ystod ei dymor fel Ysg. Gwladol dros faterion cartref a Gweinidog materion Cymreig yn y llywodraeth geidwadol cyhoeddodd yn swyddogol yn enw'r llywodraeth mai Caerdydd fyddai prifddinas Cymru; fe'i hanrhydeddwyd â rhyddfrint y ddinas. Derbyniodd hefyd radd LL.D. er anrhydedd Prifysgol Cymru. Bu farw 14 Chwefror 1967, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Cricieth.

MEGAN ARFON LLOYD GEORGE (1902 - 1966), Aelod Seneddol

Merch ieuangaf **David Lloyd George** a'i wraig Margaret; ganwyd 22 Ebrill 1902. Fe'i haddysgwyd yn Garrett's Hall, Banstead, ac ym Mharis. Fe'i hetholwyd yn A.S. (Rh) dros Fôn 1929-31; yn AS (Rh. Annibynnol) dros Fôn 1931-45; yn A.S. (Rh) dros Fôn 1945-51. Yn etholiad cyffredinol 1951 hi oedd yr ymgeisydd Rh dros Fôn; fe'i trechwyd gan **Cledwyn Hughes** (LI). Rhwng 1951 ac 1957 symudodd yn nes i'r chwth mewn gwleidyddiaeth ac ymuno â'r Blaid Lafur. Fe'i mabwysiadwyd yn ymgeisydd LI. dros etholaeth Caerfyrddin; fe'i hetholwyd yn A.S. (LI) dros Gaerfyrddin yn 1957. Parhaodd yn aelod LI dros Gaerfyrddin hyd at ei marwolaeth 14 Mai 1966. Fe'i claddwyd ym mynwent Cricieth yn y gladdgeill deuluol a wnaethpwyd pan fu farw ei chwaer Mair Eluned. Arwydd o'i phoblogrwydd a'r parch tuag ati oedd y dorf fawr a ddaeth i fynwent Cricieth ddydd yr angladd; yn eu mysg yr oedd **Gwynfor Evans** a enillodd sedd Caerfyrddin i Blaid Cymru yn yr is-etholiad a achoswyd gan ei marwolaeth.

Ar 1 Gorffennaf 1955 galwyd cynhadledd o bob plaid a mudiad dan nawdd Undeb Cymru Fydd yn Llandrindod i ystyried trefnu deiseb ar raddfa genedlaethol o blaid ymgyrch Senedd i Gymru. Yr oedd **T. I. Ellis** (ysg. U.C.F.), mab **T. E. Ellis**, ac **Ifan ab Owen Edwards** ar y llwyfan yn cefnogi'r ymgyrch, ac wrth gynnig y penderfyniad o blaid sefydlu pwyllgor i hyrwyddo'r ddeiseb a'r ymgyrch, galwodd M. Ll.G. sylw at hyn a dweud bod y tri ohonynt yn dair cangen o 'hen dderi mawr a'u gwreiddiau'n ddwfn yn naear Cymru'. Penodwyd hi yn llywydd y pwyllgor a sefydlwyd i drefnu'r ddeiseb; siaradodd mewn amryw gyfarfodydd ledled Cymru. Yr oedd ei henw a'r ffaith iddi etifeddu llawer o ddawn areithio'i thad yn sicrhau cynulleidfaoedd lluosog i'r cyfarfodydd hyn, a bu'n gyfrifol drwy ei harweiniad am symud llawer o ragfarn a fodolai yn erbyn y syniad o senedd i Gymru. Yr oedd yn un o'r ddirprwyaeth a gyflwynodd y ddeiseb i'r llywodraeth gyda chwarter miliwn o enwau yn Ebrill 1956. Yr oedd yn AS gweithgar a chydwybodol ar ran ei hetholwyr; ond mae'n eironig ar un wedd mai yn ystod tymor pan nad oedd yn A.S. y gwnaeth, efallai, ei chyfraniad mwyaf sylweddol i wleidyddiaeth ei chyfnod yng Nghymru.

Bu'n aelod o gyngor dinesig Cricieth am rai blynyddoedd, gan ddilyn esiampel ei mam yn hyn o beth, ac yn gadeirydd am flwyddyn; yn ynad heddwch, fel ei mam o'i blaen; etifeddodd hefyd yn helaeth hoffter ei mam o ardd Bryn Awelon, Cricieth; hi a etifeddodd Bryn Awelon ar ei hôl. Cafodd radd LL.D. er anrhydedd Prifysgol Cymru. Yr oedd yn ddiabrid. Daethpwyd i'w hadnabod fel y Fonesig Megan Lloyd-George 1 Ionawr 1945 pan gyflwynwyd yr iarllaeth i'w thad; fe'i gwnaed hefyd yn C.H. ychydig amser cyn ei marwolaeth. Yr oedd yn aelod o Orsedd y Beirdd; ac am gyfnod yn llywydd gweithgar Cymdeithas Diogelu Harddwch Cymru.

Ffynonellau

Who was who?, cyfrol 6

gwybodaeth gan y Fonesig Olwen Carey Evans

am wybodaeth parthed ymgyrch 'Senedd i Gymru', Elwyn Roberts, Bodorgan, Anglesey

gwybodaeth bersonol

Emyr Price, *Megan Lloyd George* (Caernarfon 1983)

Mervyn Jones, *A radical life* (Llundain 1991)

Darlloedd Bellach

Danlen Ffideo

Megan (Arfon) Lloyd George (1902-1966), gwefan Maes y Gad i Les y Wlad, gwelwyd 30 Mai 2019

BBC News: Plaque for Wales' first female MP Megan Lloyd George

Archifau LIGC: Etholiad Seneddol Môn, 1945. Dydd Iau, Gorphennaf, 5ed. The Election Address of Lady Megan Lloyd George

Archifau LIGC: Megan Lloyd George

Erthygl Wicipedia: Margaret Lloyd George

Erthygl Wicipedia: Gwilym Lloyd George

Erthygl Wicipedia: Megan Lloyd George

Sain a Ffilm

AGSSC: David Lloyd George's Golden Wedding Anniversary

The wedding of Lady Olwen Lloyd George, gwefan Eglwys Gymraeg canol Llundain

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MSS 23254-23268: Megan Lloyd George Papers

Archifau LIGC: NLW MS 22752C: Megan Lloyd George: Correspondence

Archifau LIGC: Lloyd George Manuscripts

Archifau LIGC: NLW MSS 23657-23671: Viscount Tenby Papers

Archifau LIGC: NLW MSS 22823-22828: Lady Olwen Carey-Evans Papers

Wikidata: Q19832359

Dyddiad cyhoeddi: 1997

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

(1997). LLOYD GEORGE (TEULU). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-LLOY-GEO-1888>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Noddi gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by:
Welsh Government